# RHYBUDD o Benderfyniadau y cyfarfod Hybrid o’r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth, 22 Hydref, 2024

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 24 Hydref, 2024. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 31 Hydref, 2024. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 1 Tachwedd, 2024.

| | |
|---|---|
| **Presennol**: | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **Hefyd yn bresennol**: | Y Cynghorwyr Trefor Ll Hughes MBE, Robert Ll Jones, Derek Owen |
| **Ymddiheuriadau**: | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol;<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |

(10.00 o'r gloch yb – 10.55 o’r gloch yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2024 fel cofnod cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>*(Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth)* |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2024 i Mehefin 2025 gyda'r newidiadau ychwanegol a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adolygiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2023/24**<br>*(Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)* |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:**<br>• **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau dros dro tan y bydd Archwiliad o Ddatganiad y Cyfrifon 2022/23 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiad sylweddol i'r ffigyrau yn yr adroddiad yn cael ei adrodd fel bo'n briodol.**<br>• **Nodi dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2022/23 yn yr adroddiad.**<br>• **Trosglwyddo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn gydag unrhyw sylwadau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |

| | |
|---|---|
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **NA - Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys yn destun cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd Lleol**<br>*(Adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)* |
| PENDERFYNIAD | **PEDNERFYNWYD cymeradwyo’r Cynllun Strategol Rheoli Llifogydd drafft a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (LFRMS) ar gyfer ymgynghori â’r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo’r Cynllun Strategol Rheoli Llifogydd a’r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Diweddariad ar Gynnydd Rhaglen 'Cysylltu Gofal' - Caffael a Chyllid**<br>*(Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)* |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **Cymeradwyo’r dull a ffafrir, fel y disgrifir yn yr Adroddiad hwn, ac yn unol â pharagraff 3.5.1.6 i awdurdodi’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (neu ei enwebai) i gymryd rhan llaw yn nyfarniad y contract a’r gwaith o ffurfioli’r contract.**<br>• **Petai Llywodraeth Cymru yn methu â darparu’r cyllid disgwyliedig, neu os yw’r cyllid yn annigonol, bydd y** |

| | |
|---|---|
| | **Gyllideb arfaethedig i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2025/2026 yn cynnwys:-**<br>• **Swm untro o rhwng £276,000 a £313,000 ar gyfer y gost gweithredu contract;**<br>• **Swm refeniw bob blwyddyn o rhwng £108,000 a £153,000 (ar gyfer trwyddedau a chostau lletya):**<br>• **Swm untro o £58,000 er mwyn ariannu swydd Graddfa 5 i gefnogi gweithrediad, hyfforddiant a chefnogaeth i'r system bresennol o Ebrill 2025 am gyfnod o flwyddyn.**<br>• **Yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor, o ganlyniad i'r amserlen dynn a ddisgrifir yn yr Adroddiad, mae'r Pwyllgor Gwaith yn eithrio'r penderfyniad rhag gallu cael ei alw i mewn gan Sgriwtini gan y byddai'r amserlen angenrheidiol ar gyfer y broses alw i mewn yn niweidiol i fudd gorau'r Cyngor a'r cyhoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cefnogi'r dull a ffafrir a chymryd rhan lawn yn y contract a'r gwaith o ffurfioli'r contract.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **NA - Yn unol â Pharagraff 4.5.16.10 o'r Cyfansoddiad mae'r Pwyllgor Gwaith, yn dilyn derbyn caniatâd ymlaen llaw gan Gadeirydd y Cyngor, wedi penderfynu eithrio'r penderfyniad rhag cael ei alw i mewn. Cafodd y cynnig i eithrio'r mater rhag cael ei alw i mewn hefyd ei rannu â Chadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Porthladd Rhydd Ynys Môn - Cynnydd Paratoadau'r Achos Busnes Llawn**<br>*(Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)* |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Cyfarwyddwyr Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro ac Adnoddau/Adran 151, i gymeradwyo a chyflwyno'r Achos Busnes Llawn drafft i'r Llywodraeth i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn datblygu trefniadau llywodraethiant Porthladd Rhydd Ynys Môn.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |